

# **Senedd Myfyrwyr**

Hysbysir aelodau Senedd y Myfyrwyr y cynhelir y cyfarfod nesaf fel y dangosir isod:

**Student Senate  
Senedd y Myfyrwyr**



**Dydd Llun 14 Tachwedd 2017**

**Ystafell 4J, 4ydd Llawr Undeb y Myfyrwyr 5yh**

---

## **Agenda**

Cysylltwch â Thîm Llais Myfyrwyr ar 02920 781435 neu e-bostiwch [democracy@caerdydd.ac.uk](mailto:democracy@caerdydd.ac.uk) i drafod unrhyw ychwanegiadau neu newidiadau sydd gennych neu i gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r eitemau isod ar yr agenda.

### **I Eitemau Sylfaenol:**

- A. Ymddiheuriadau
- B. Croeso gan y Cadeirydd
- C. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

### **II Eitemau Undeb y Myfyrwyr:**

- A. Ethol Cadeirydd
- B. Cyllideb Undeb y Myfyrwyr
- C. Adroddiad gan yr Ymddiriedolwyr
- D. Diwygiadau Is Ddeddfau
- E. Diweddariad ar Bolisiau a basiwyd y tro diwethaf

### **III. Eitemau a Gyflwynwyd:**

- A. Rhyddid i Ddarllen
- B. Dileu cyfyngiadau economaidd ar Gymdeithasau i gynnal Rhyddid i Siarad

### **IV. Unrhyw Fusnes Arall:**

- 1. Cynigion sy'n Darfod

Bydd y cyfarfod nesaf yn digwydd am 5yh dydd Mawrth 5 Rhagfyr yn 4J Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Plas y Parc

Senedd Myfyrwyr  
Dydd Mawrth Mai 2il 2016, 4J am 6yh

Myfyrwyr yn bresennol:

Callum Smith  
Chiron Hooson  
David Hooson  
Emlyn Pratt  
Esyllt Lewis  
Jake Smith  
James Daly  
Jordan Martin  
Joshua Green  
Marcus Connolly  
Matthew Jenkins  
Matthew Procter  
Nicholas Fox  
Nuoyi Peng  
Osian Morgan  
Prashant Garg  
Saurodip Banerjee

Staff Undeb y Myfyrwyr yn bresennol:

Elin Harding  
Niko Ciecierski-Holmes  
Steve Ralph  
Daniel Palmer  
Vicki Groves

## Eitemau Sylfaenol

### Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Aayat Almezaal, Charlie Knights, Emmaline Rice, Jasmine Owen, Jessica Lam a Steffan Bryn.

### Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd KB bawb i'r cyfarfod.

### Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Dim diwygiadau i'r cofnodion blaenorol.

### Materion sy'n Codi

Esboniodd KB bod modd olrhain polisiâu ar wefan Llais Myfyrwyr, mae'r cofnod o'r Senedd diwethaf yn cael ei olygu cyn iddo gael ei ryddhau a gofynnodd os oedd gan unrhyw un ddiddordeb

yn sefydlu gweithgor i werthuso rolau'r Swyddogion Sabothol.

## Eitemau Undeb y Myfyrwyr:

### Newid i'r Is-Ddeddfau

Esboniodd SR mai'r unig newid yw creu is-bwyllgor i'r gwasanaethau aelodaeth. Mae'r newidiadau eraill yn newidiadau gweinyddol bach.

## Eitemau a Gyflwynwyd:

### Diwygiadau Senedd Myfyrwyr

Cynigydd: Matthew Procter

Eglurodd MS bod y ddogfen yn hunanesboniadol ac awgrymodd mai trafodaeth gyffredinol fyddai orau. Cydnabod y materion sydd wedi codi gyda 5 ac yn hapus i gael gwared ohono.

Gofynnodd NCH am gynnig ar gyfer presenoldeb cyfryngau cymdeithasol a beth fyddai hyn yn ei olygu.

Atebodd MP nad yw'n gwybod beth yw strategaeth cyfryngau cymdeithasol effeithiol a bydd hynny i fyny i'r adran farchnata. Gofynnodd pan nad oes pleidlais ar y ddogfen.

Eglurodd KB mai trafodaeth yw'r ffordd orau.

Eglurodd NCH bod cynnig 6 yn cael ei wneud eisoes a thrafodwyd y cynnig am weithio gyda'r Bwrdd Ymddiriedolwyr mewn diwrnod cwrdd i ffordd ym mis Ionawr a chododd rhai syniadau. Mae cynnig 2 ychydig yn fwy cymhleth, mae Senedd yn gorff gwneud polisi ac mae'r cyfrifon eisoes yn cael eu cyflwyno yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Eglurodd MP y dylai'r Senedd allu deall y cyfrifon os byddant yn gwneud polisiau.

Dywedodd EH ei bod yn fwy buddiol cael trafodaeth anffurfiol am y cyfrifon yn hytrach na phleidleisio arnynt.

Atebodd MP nad ydynt yn annibynnol ar ei gilydd. Os nad yw'r Senedd yn pleidleisio gallwn ddangos nad ydym yn hapus gyda'r cyfrifon rydym wedi'u derbyn.

Eglurodd MJ y byddai'n golygu pleidleisio eu bod wedi derbyn y cyfrifon, nid i'w cymeradwyo.

Dywedodd MC ein bod i fod i wneud hyn yn y CCB ond os nad ydynt yn eu deall nhw nid ydym yn gallu pleidleisio'n effeithiol.

Gofynnodd KB sut y dylid symud ymlaen, awgrymwyd polisi neu weithgor.

Hoffai MP pleidlais o ganiatâd.

Anghytunodd EH, bu nifer o gynnydd ar nifer o bwyntiau ac mae'n well cael ffordd fwy anffurfiol i wella'r Senedd. Efallai na fydd pobl yn cytuno â phob pwynt.

Awgrymodd KB fynd â'r peth at grŵp bach a fydd yn gallu gweithio ar rywbeth a'i ddod i'r Senedd y flwyddyn academaidd nesaf. Bydd mwy o bobl yn gallu cymryd rhan a gallu edrych arno yn fwy manwl.

Atebodd MP nad ydynt yn annibynnol ar ei gilydd, gall y Senedd gytuno heddiw ac yna hefyd eisiau newid neu ymestyn y ddogfen y flwyddyn nesaf.

Awgrymodd MJ man canol i bleidleisio i sefydlu gweithgor. Bydd hyn yn rhoi dilysrwydd i'r ddogfen, ond nid yn trosglwyddo unrhyw bwyntiau penodol.

Esboniodd KB ei fod yn esbonio yn yr is-ddeddfau (5.6.1 cyfrifoldeb) bod Swyddogion Sabothol yn gallu ffurfio gweithgor yn y Senedd.

Dywedodd MC bod hwn yn syniad da.

Dywedodd CH y gall hyn sicrhau parhad dros yr haf.

Esboniodd NCH y gall hyn ei ychwanegu i'r adran Orlhain Polisi.

*Pwynt Gweithredu – Swyddogion Sabothol i ffurfio gweithgor.*

## Cynnal hawliau sylfaenol i ryddid

Cynigydd: Prashant Garg

Eiliwyd gan: Georgi Ivanov

Siaradodd PG dros y cynnig ac esbonio bod y cynnig o'r enw Stopio Annog Casineb yn lobbio yn erbyn Prifysgol Caerdydd yn hysbysebu mewn rhai papurau newyddion penodol. Mae'r Brifysgol yn niwtral yn wleidyddol ac mae'r cynnig hwn yn gwrth-ddweud hynny, yn enwedig oherwydd bod Herio nid Sensro wedi pasio yn y CCB. Mae rhyddid i siarad yn bwysig iawn, os nad yw pobl yn hoffi'r papurau newydd nid oes yn rhaid iddynt eu prynu. Ydyn ni eisiau alinio Prifysgol Caerdydd i syniadau sydd ond yn uniongyrchol wleidyddol, dylen fod o blaid rhyddid i siarad a pheidio dinistrio colofn addysg.

Siaradodd MJ yn erbyn y cynnig fel awdur Herio Nid Sensro. Mae'r cynnig ond yn cyfeirio at gamau myfyrwyr ac nid yw'n gallu cael ei basio gyda nodiadau ffug. Mae nodiadau terfynol y senedd yn anghywir hefyd. Mae angen cael gwared ar rhain ac yna ni fydd digon ac ni ellir ei basio. Os oedd yn ymgyrch yn erbyn papurau asgell dde byddai hefyd yn rhaid i ni wahardd the Times a'r Telegraph. Nid oes gennym hysbysebion yn y Sun fel nad ydynt wrth ymyl Tudalen 3, i ddiogelu myfyrwyr.

Siaradodd PG dros y cynnig ac esbonio os rydym yn lobbio yn erbyn rhyddid i siarad, yna rydym yn mynd yn erbyn y cynnig yn y CCB. Nid yw materion gwleidyddol a moesol yn wahanol iawn ac nid ydym yn gallu penderfynu beth yw mater moesol. Nid ydyn yn gallu tawelu materion eraill, dylem ymdrechu ar gyfer craffu cymdeithasol a rhyddid i siarad.

Siaradodd JG yn erbyn y cynnig ac esbonio ein bod wedi mynd yn erbyn rhai pynciau sawl gwaith, ond nid ydynt wedi'u neilltuo i ideoleg wleidyddol. Problemau gyda rhai papurau yw nad ydyw'n hygyrch dadlau gyda nhw. Nid ydym am gefnogi pethau nad ydym yn cytuno â nhw.

Siaradodd PG dros y cynnig ac esbonio bod y Brifysgol yn sefyll dros amrywiaeth o syniadau ac nid delweddau ac erthyglau rhywiaethol. Mae nifer o bobl yn tanysgrifio, mae'n boblogaidd ac os nad

ydym yn hysbysebu ynddo rydym yn gweithio eu darllenwyr i'r ymylon.

Siaradodd MC yn erbyn ac esbonio bod hysbyseb yn ceisio gwerthu busnes. Mae'r Undeb yn wleidyddol iawn ac mae'r Senedd yn sbardun ar gyfer gwleidyddiaeth. Nid ydym am alinio'n hunain gyda phapurau sydd wedi gwneud pethau gwael.

Eglurodd PG efallai fod yr Undeb yn wleidyddol ond nid yw'n gwahaniaethu. Mae'n gwerthfawrogi amrywiaeth a dyna lle rydym yn cael syniadau a gwybodaeth. Hefyd, pa neges mae hyn yn ei roi i'r rheini sydd yn darllen y papurau hyn ac sydd ym Mhrifysgol Caerdydd?

Eglurodd JD nad ydym yn gwahardd papurau, rydym yn atal hysbysebion.

Esboniodd SB eu bod yn bapurau pwysig ac nid gwahardd yr hysbysebion yw'r ateb.

Esboniodd MJ bod mwy yn cael ei ddweud am ryddid i siarad a llai am hysbysebu. Mae Senedd yn barod i fod yn gyson â phapurau newydd eraill.

#### *Symiant o Blaid*

Eglurodd PG bod angen i'r Senedd godi ymwybyddiaeth bod unrhyw fath o ffobia demograffig yn anghywir, ond nid ydym yn gallu ei dawelu.

#### *Symiant yn Erbyn*

Esboniodd JG nad yw'n ddadl athronyddol, ond nid yw'r cynnig hwn yn rhyngweithio â'r cynnig yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Hefyd, mae'r Senedd yn hapus i fod yn gyson. Nid yw hyn ynglŷn â rhyddid i siarad. Mae'r cynnig wedi'i ysgrifennu yn wael hefyd.

*Pwynt gweithredu – Swyddogion Sabothol i greu gweithgor am dynnu polisiau yn ôl.*

#### *Cynnig yn methu*

### **Pleidleisio yn y CCB**

Cynigydd: Matthew Procter

Siaradodd MP dros y cynnig ac esbonio bod y cynnig hwn yn sicrhau bod gan fyfyrwyr hawliau pleidleisio mewn gweithdrefnau democrataidd.

Siaradodd NCH yn erbyn y cynnig oherwydd y cyflwr presennol. Yn Cred y Senedd 4, nid dyma swydd y Senedd. Caiff ei ddehongli gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr, sy'n arbenigwyr.

Cynigiodd NCH gwelliant Cred y Senedd 4, i newid 'yn' i 'dylid'.

*MP yn derbyn y diwygiad.*

#### *Symiant o Blaid*

Eglurodd MP bod hyn yn ailddatgan y dylai myfyrwyr dderbyn dogfennau yn y CCB.

#### *Cynnig yn pasio*

## Cofrestru Pleidleiswyr ac Ymgyrch Pleidlais drwy Bost 2017-05-02

Cynigydd: James Daly  
Eiliwyd gan: Matthew Jenkins

Siaradodd JD dros y cynnig ac esboniodd bod etholiad brys wedi'i alw ac mae'r Undeb fel arfer wedi cynnal ymgyrch hir. Hoffai weld ailadrodd o'r lefel o 2015 ac hefyd darparu gwybodaeth am bleidleisio drwy'r post gan fod nifer o fyfyrwyr wedi mynd adref ar ôl yr etholiadau a na fydd eu llais yn cael eu cynrychioli.

Gofynnodd EH am benderfyniad 1, oherwydd ei fod yn fyr rhybudd mae'n debygol na fyddai yr un peth â 2015 gan na fyddwn efallai yn gallu cael yr un arian ac nid ydym wedi cyllidebu ar ei gyfer.

Cynigiodd EH newid penderfyniad 1 i 'Bydd UMPC yn anelu at gynnal ymgyrch gofrestru tebyg i hwnnw yn 2015'.

*Derbyniodd JD y gwelliant.*

Eglurodd CH bod ychydig o wallau yn nodiadau'r Senedd ac nid yw'n broffesiynol iawn iddo fynd yn y llyfr polisiau. Gofynnodd beth yn union fydd yn digwydd, gan fod ymgyrchoedd yn cymryd amser hir i'w trefnu.

Cynigiodd CH newid i ychwanegu 'Theresa' i Nodiadau 1.

*Derbyniodd JD y gwelliant.*

Esboniodd JD ei fod wedi mynd yn ôl drwy gynigion blaenorol y senedd ac maent wedi cael cynigion byrrach sy'n golygu eu bod yn haws ac yn fwy cryno.

Gofynnodd NCH i JD a'r Senedd i gyflwyno unrhyw syniadau.

Gofynnodd MC os oedd unrhyw frandio dros ben o etholiadau blaenorol, gallu gofyn wrth UCM am help.

Eglurodd MP bod yn rhaid i fyfyrwyr Prifysgol Sheffield ychwanegu eu cyfeiriad i fynd ar y porth, ac mae ganddyn nhw system rhannu data gyda'r data etholiadol.

Dywedodd JG bod hynny yn syniad da a bod angen i'r Undeb fod yn fwy ymosodol gyda hyn.

Awgrymodd JS y gall myfyrwyr gofrestru drwy SIMS ac yn 2015 roedd stonid yn gofyn i bobl gofrestru i bleidleisio drwy'r post, fe gaeth ymateb da. Gall yr Undeb gynnal digwyddiadau. Mae ffurflenni ar gael fel PDF ar-lein y gellir eu danfon allan.

Dywedodd EP bod cofrestr pleidleisio yn uwch na 2015. Dylid rhoi pwyslais ar bleidleisio.

Awgrymodd KB e-bostio syniadau at y tîm sabothol.

*Cynnig yn pasio*

Y Gymanwlad a'r Bleidlais

Cynigydd: Vaishnavi Sayal

Eiliwyd gan: Prashant Garg, James Daly, Nicholas Fox

Siaradodd SB dros y cynnig ac esbonio bod gan fyfyrwyr y Gymanwlad hawl i bleidleisio. Mae cyfnod yr arholiadau ar y gweill ac nid oes llawer o amser i gael rhif Yswiriant Gwladol, mae nifer o fyfyrwyr ddim yn gwybod sut i ymgeisio amdano felly dylen ni hyrwyddo hyn. Bydd hyn yn golygu y bydd mwy o fyfyrwyr yn gallu pleidleisio. Awgrymu eu rhoi ar wefan UMPC neu wefan y brifysgol. Angen dod o hyd i ateb i helpu myfyrwyr ddod o hyd i'w rhif Yswiriant Gwladol.

Esboniodd JD nad oes angen rhif YG i bleidleisio, gallu danfon pasbort.

Cytunodd NCH bod angen inni wthio syniadau, ond fel elusen nid ydym yn gallu gwthio rhif YG, angen danfon myfyrwyr at gymorth rhyngwladol.

Gwiriodd JD ac nid oes angen YG ar fyfyrwyr.

Esboniodd SB bod angen i ni sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn y wybodaeth bod angen iddynt gofrestru i bleidleisio.

Dywedodd EH mai dim ond 3 wythnos sydd gennym ac mae'n gallu cymryd 10 diwrnod gwaith i gael rhif YG, efallai na fydd amser. Mae'n well gwneud heb rhif YG gan nad oes gennym llawer o amser.

Cynigiodd JD ddau newid. Dileu nodiadau Senedd olaf a newid y Cred y Senedd olaf o 'fel cael gafael ar rhif yswiriant' i 'sut i gofrestru gyda neu heb rhif Yswiriant Gwladol'.

*Derbyniodd SB y ddau newid.*

Gwnaeth SB newid i Penderfynodd y Senedd 5 i newid 'ei sicrhau' i 'cofrestru heb rhif Yswiriant Gwladol'.

Cynigiodd MJ newidiadau i ychwanegu 'a Gweriniaeth Iwerddon' i Nodiadau Senedd 2.2 a Penderfynodd y Senedd 7 ac ychwanegu 'a Cyprus, Malta a Gweriniaeth Iwerddon' i Penderfynodd y Senedd 2.2.

*Derbyniodd SB y newidiadau.*

Dywedodd JS bod pobl yn 2015 yn credu bod angen rhif YG arnynt i bleidleisio. Ac ychwanegodd newid i benderfyniadau'r Senedd 'Bydd yr Undeb yn atgoffa myfyrwyr nad oes angen rhif Yswiriant Gwladol arnynt i bleidleisio'.

Dywedodd NCH hyn fod yn ailadroddus i'r newid cynharach.

*Gwrthododd SB y newid.*

*Symiant o Blaid:*

Esboniodd SB ei fod yn gwerthfawrogi'r pryderon a godwyd ond y syniad yw cael mwy o fyfyrwyr i bleidleisio. Beth rydym yn gynnig yw y dylai'r Undeb wthio am ymwybyddiaeth.

## Unrhyw Fusnes Arall:

### Cynigion sy'n Darfod

#### Cynigion sy'n Darfod

Esboniodd KB ein bod un Senedd yn rhy fyr ac eisiau trefnu un mwy.

Rhoddodd EH ddiweddariad gan ST am wthio rhyddhad ac ymgyrchoedd, ddim amser i gyfieithu i'r Gymraeg.

*Pwynt Gweithredu – a ddarperir yn y Senedd nesaf.*

Gofynnodd CH am ddiweddariad ar gynnig brys o'r Senedd diwethaf.

Esboniodd NCH nad yw wedi cael ei lunio eto, ond ni fydd is-etholiad ochr yma'r haf. Cadarnhaodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ei fod yn bosib os gallai staff ei drefnu ond mae Llais Myfyrwyr un aelod staff i lawr, felly nid oedd yn ymarferol.

*Pwynt Gweithredu – bydd diweddariad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu y Senedd nesaf.*

Dywedodd CH y dylid ymateb i fyfyrwyr cyn gynted â phosibl.

Esboniodd MP bod angen gweithredu ar gynnig, yn enwedig os yw'n gynnig sydd angen gweithrediad cyflym.

Dywedodd MJ ei bod yn haws mynd drwy'r cynigion pan maent wedi'u rhifo.

*Pwynt Gweithredu – SR i gyfleu hyn i seneddwr ar gyfer cynigion y dyfodol.*

## III. Eitemau a Gyflwynwyd:

### A. Rhyddid i Ddarllen

#### Mae Senedd y Myfyrwyr yn Nodi

1. Ar hyn o bryd mae Undeb y Myfyrwyr yn lloio rheolwr siop WHSmith i barhau i beidio gwerthu papurau newydd the Sun a Daily Star.

#### Cred Senedd y Myfyrwyr

1. Mae myfyrwyr yn astudio yma ac sy'n siopa yn yr Undeb yn oedolion ac yn gallu gwneud penderfyniadau eu hunain. Pwrpas prifysgol yw hyrwyddo rhyddid meddwl a galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu syniadau eu hunain. Mae hyn yn dechrau drwy ganiatáu iddynt gael mynediad i bob math o wybodaeth yn hytrach na'u cyfyngu i ddetholiad cyfyngedig o ffynonellau.



### **Penderfyna Senedd y Myfyrwyr**

1. Bod lobio WHSmith yn dod i ben ar ran unrhyw gyhoeddiadau ar ôl cymeradwyo'r cynnig hwn a bydd rheolwr siop WHSmith yn cael gwybod y dylent werthu pa bynnag ddeunydd maent eisiau o fewn un wythnos.
2. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn cadw'r hawl i feirniadu unrhyw gyhoeddiadau mewn unrhyw ffordd sy'n angenrheidiol ag â'r hawl i ddarbwylo unigolion i beidio â phrynu/darllen y cyhoeddiadau hyn ond ddim i atal hawliau unigolion i gael mynediad ar y papurau hyn yn WHSmith nag unrhyw le arall.

**Cynigydd:** Tomos Llewelyn

**Eilydd:** Prashant Garg

## **B. Dileu cyfyngiadau economaidd ar Gymdeithasau i gynnal Rhyddid i Siarad**

### **Mae Senedd y Myfyrwyr yn Nodi**

1. Mae rhyddid i siarad ar gampysau prifysgol wedi dod o dan ymosodiad yn ddiweddar gan symudiad cymdeithasol sydd fel petai yn rhoi 'peidio â chael eu tramgwyddo' yn rhinwedd uwch. Yn anffodus, mae ein prifysgol ac undeb y myfyrwyr hefyd wedi magu'r duedd hon. Gan ddefnyddio Cod Ymarfer Orwelliaidd ar Ryddid i Siarad, rhoddodd y brifysgol wltimatwm i un o gymdeithasau newydd y flwyddyn academaidd hon – un ai talu ffioedd diogelwch am ein digwyddiad neu fe fydd yn cael ei wahardd.
3. Cymeradwywyd y siaradwr 'Dr. Yaron Brook' gan yr Undeb ym mis Awst, ond fe wnaeth y Brifysgol gysylltu â'r trefnwyr ym mis olaf Hydref, yn gosod nifer o amodau am y digwyddiad.
4. Mae'r Brifysgol wedi atal lleoliad y digwyddiad, gosod trefn cyn digwyddiad i'w roi ar waith, gosod amod i gael un person yn cymedroli'r ddarlith a gosod yr amod i logi dau aelod o ddiogelwch y Brifysgol.
5. Cyfeiriodd y Brifysgol at erthygl yn y Tab, a oedd yn nodi bod rhai o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerwysg ddim yn hoffi'r siaradwr felly wedi dal arwyddion protest yn y theatr ddarlithio. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw drais corfforol o gwbl. Yn wir, nid oes gan Prifysgol Caerwysg unrhyw broblem gyda'r siaradwr ac maent wedi ei wahodd i siarad eto ar y 15fed o Dachwedd, diwrnod cyn yr un digwyddiad yng Nghaerdydd. Bydd y siaradwr yn siarad mewn 6 Prifysgol arall ym mis Tachwedd ar bwnc tebyg cyn iddo siarad yng Nghaerdydd ar yr 16eg o Dachwedd, a dim un o'r Prifysgolion hynny yn gosod amodau cyfyngol ar Rhyddid i Siarad.
6. Pan symudwyd y digwyddiad o safle'r Brifysgol i'r Undeb, symudodd cyfrifoldeb darparu'r Diogelwch i'r Undeb, a oedd wedi penderfynu llogi diogelwch allanol, sy'n codi tâl o £101 am ddigwyddiad 90 munud. Mae gan y cymdeithas newydd ond £9 yn ei gyfrif, ac mae'r Undeb yn gwybod hyn. Mae'r Undeb wedi defnyddio dull economaidd geisio gwahardd y siaradwr.

### **Cred Senedd y Myfyrwyr**

1. Ni ddylai trafod mater sy'n ymwneud ag economeg ac athroniaeth, nag unrhyw bwnc a addysgir yn y Brifysgol, wneud y sgwrs mor ddadleuol i osod nifer o amodau ar Ryddid i Siarad.
2. Mae gan yr Undeb ddiogelwch 24/7, a ddylai fod yn ddigon i ddiogelu unrhyw ddarlith academaidd sy'n digwydd o fewn yr Undeb, gan ddileu'r angen i logi Showsec, cwmni diogelwch preifat allanol.
3. Dylai'r Undeb dalu am ddiogelwch am ddarlith academaidd sy'n ymwneud â phynciau a addysgir yn y Brifysgol, os oes amod a osodwyd gan y Brifysgol neu'r Undeb i logi diogelwch.

#### **Penderfyna Senedd y Myfyrwyr**

1. Dylai'r Undeb fod yn ymwybodol o'r oblygiadau ariannol o'r amodau a osodir ar y Brifysgol neu'r Undeb ar y cymdeithasau.
2. Dylai'r Undeb dalu am y gost diogelwch cyfyngol allanol a osodir gan y Brifysgol ar gymdeithasau na allant fforddio'r costau hynny.

**Cynigydd:** Prashant Garg

**Eilydd:** Tomos Llewelyn

#### **Unrhyw Fusnes Arall:**

Motions passed 04/11/14

“The Welsh language is an opportunity, not a burden” Adopting  
NUS Wales' national Welsh language Charter  
Divestment in Fossil Fuel  
Drink Awareness